

Cyngor Tref Porthmadog : Ceisiadau am gymorth ariannol **Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr**

1.0

Pwy sy'n gymwys?

1.1

Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau sydd a'u seiliau yn nalgylch y Cyngor Tref sef : Mhorthmadog, Tremadog, Borth y Gest, Morfa Bychan , yn wreithredol yn yr ardal ac yn gwneud gwaith sydd o fudd i drigolion dalgylch Cyngor Tref Porthmadog.

1.2

Gellir ystyried ceisiadau hefyd gan grwpiau sydd â'u pencadlys tu allan i dalgylch y Cyngor Tref ond sy'n weithredol yn y dalgylch ac yn gwneud gwaith sydd o fudd i drigolion y dalgylch.

1.3

Gellir ystyried rhai ceisiadau gan fudiadau cenedlaethol Cymreig yn ymwneud â diwylliant ac economi Cymru sydd yn berthnasol i ddalgylch Cyngor Tref Porthmadog.

2.0

Math o geisiadau

2.1

Gellir ystyried dau fath o gais:

- cais gan gorff am gymorth tuag at gostau gweithgaredd arferol blynyddol;
- cais gan gorff, neu unigolyn, tuag at ddigwyddiad neu weithgaredd arbennig.

3.0

Pryd i wneud cais?

3.1

Mae'n rhaid sicrhau bod eich cais yn cael ei dderbyn cyn 31ain o Ionawr. Bydd ceisiadau dilys yn cael eu hystyried yng nghyfarfod llawn o'r Cyngor Tref ym mis Chwefror.

4.0

Pa wybodaeth sydd angen ei anfon?

Pob cais

4.1

Rhaid anfon:

- y ffurflen gais wedi ei chwblhau gydag unrhyw atodiad perthnasol;
- Eich cyfrifion yn dangos eich incwm a gwariant am y flwyddyn ariannol Ddiweddaraf.

4.2.

Cais am ddiwyddiad neu weithgaredd arbennig

Rhaid anfon:

- disgrifiad o'r gweithgaredd ac amcanion y digwyddiad;
- amcangyfrif o'r holl gostau cyfalaf a refeniw y digwyddiad;
- amcangyfrif o unrhyw incwm a ddisgwylir o gynnal y digwyddiad;
- manylion ceisiadau am nawdd gan gyrff eraill ar gyfer y digwyddiad;
- manylion unrhyw weithgaredd gan eich mudiad i godi arian tuag at gynnal y digwyddiad.

4.3

Os na fydd y wybodaeth uchod yn gyflawn ni ellir ystyried eich cais.

5.0

Faint o gymorth sy'n bosibl?

5.1

Mae'r arian sydd ar gael gan y Cyngor yn gyfyngedig iawn ac ni ellir cyfrannu tuag at pob cais. Fe fydd pob cais dilys yn cael ei ystyried yn fanwl ac, os yn cael ei gytuno, fe fydd y Cyngor yn cyfrannu o fewn eu gallu.

6.0

Sut i wneud cais

6.1

Gellir llawrlwytho Ffurflen Gais o'r wefan

www.cyngortrefporthmadog.org

neu fe allwch ffonio Clerc y Dref ar 01766 513709 i gael copi.

6.2

Anfonwch eich ffurflen gais gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol i:

Marian Roberts

Clerc Cyngor Tref Porthmadog

Tawelfan

29 Maes Gerddi

Porthmadog

Gwynedd LL49 9LE

6.3

O dderbyn eich cais bydd Clerc y Cyngor yn ei archwyllo ac, os fydd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi ei dderbyn, bydd yn rhoddi y cais ar agenda cyfarfod mis Chwefror y Cyngor Tref.

6.4

Os na fydd y ffurflen gais yn gyflawn neu os nad ydych wedi amgau'r holl wybodaeth a ofynir yna fe fydd y Clerc yn cysylltu â chwi i egluro na ellir ystyried y cais hyd fyddwch wedi anfon yr holl wybodaeth sydd ei angen. Fe all hyn olygu na fydd yn bosibl rhoddi eich cais gerbron y Cyngor Tref ac ni ellir ystyried eich cais yn y flwyddyn ariannol yna.

6.5

Yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor llawn fe fydd y Clerc yn cysylltu â chwi i adael i chwi wybod beth oedd canlyniad eich cais.